



**CRONFA ARLOESI ADDYSG FFILM
CANLLAWIAU
2020**

CYFLWYNIAD

Ein cenhadaeth yw hybu sector ffilm cynaliadwy a diwylliant ffilm sy'n gweithio i bawb ledled Cymru.

Mae galwad agored Cronfa Arloesi Addysg Ffilm yn gwahodd cynigion i archwilio ffyrdd newydd i weithio a/neu brofi mathau gwahanol o gyflawni a fydd yn goresgyn rhwystrau i addysg ffilm yn ystod pandemig COVID-19.

Gall ceisiadau gynnwys gweithgareddau fel, ond heb fod yn gyfyngedig i, dysgu o bell drwy ddarpariaeth ar-lein, datblygu adnoddau neu hyfforddiant DPP. Mae'n bosibl y gallai elfennau arloesi sy'n cael eu hariannu drwy'r gronfa hon arwain at gais yn y dyfodol i [Gronfa Prosiectau Addysg Ffilm](#), a bydd y dyddiad cau ar gyfer hynny yn nhymor yr hydref, 2020.

Drwy'r adegau heriol yma, mae ffilmiau'n darparu cyfle i hysbysu, addysgu a chynnig adloniant, ac ymgysylltu â'r byd o'n hamgylch hyd yn oed. Mae addysg ffilm yn chwarae rôl allweddol yn y ffordd rydym yn ymwneud â'r byd. Mae'n creu sgiliau ar gyfer dehongli'r ddelwedd symudol ac yn archwilio sut caiff storïau eu hadrodd yn ogystal â chynnig cyfleoedd addysgiadol drwy gyfrwng hynod hygyrch ac amlweddol. Mae Ffilm Cymru yn gwerthfawrogi gweithgareddau (theoretig ac ymarferol) sy'n dangos bod creu ffilmiau yn ymarfer creadigol yn ogystal â hybu gwerth diwylliannol ffilmiau a dealltwriaeth beirniadol ohonynt.

Rydym yn edrych am gynigion sy'n gweithio i oresgyn rhwystrau a chymryd rhan mewn addysg ffilm, gan annog y cyfranogiad ehangaf posibl yn niwylliant ffilm Cymru.

Deallwn fod pandemig Covid-19 yn cyflwyno amryw heriau unigol i wahanol gymunedau. Gallai hyn fod ar sail rhwystrau sy'n bodoli eisoes gan gynnwys cymunedau gwledig, rhai sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol a rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Rydym yn annog ymgeiswyr i ystyried effaith eu cynnig a sut bydd yn gwneud argraff ystyrion ar y sawl maent yn gobeithio ymwneud â nhw.

Gallai'r cynlluniau gael eu cynnal mewn amgylcheddau dysgu ffurfiol, fel ysgolion, neu ddysgu anffurfiol sy'n digwydd yn y cymunedau ehangach. Gallai ffilmiau gynnig cyfleoedd dysgu hygyrch yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan, ond rydym yn deall y gallai fod heriau i'w goresgyn. Rydym yn annog ymarferwyr addysg ffilm i ddilyn y wybodaeth ddiweddaraf drwy [ddatganiadau a chanllawiau](#) gan Kirsty Williams AS, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru.

Mae Ffilm Cymru yn gwahodd ceisiadau ar sail dreigl, rhwng nawr a **Medi 30^{ain} 2020**, neu hyd nes bod yr arian i gyd wedi'i ddyfarnu. Mae modd cyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb unrhyw adeg, ond nid hwyrach na **15^{fed} Medi 2020**.

Mae'r alwad ar agor i geisiadau sy'n gofyn am hyd at £2,500 (hyd at 75% o gyfanswm y costau) i gynorthwyo gweithgarwch sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol, sy'n gorffen ar neu cyn 31ain Mawrth 2021.

Mae'r arian hwn sy'n cael ei gynnig yn cynnwys arian loteri, wedi'i ddirprwyo gan y BFI, ac mae Cyngor Celfyddydau Cymru a'r BFI yn cynorthwyo Ffilm Cymru i reoli'r gronfa hon.

BETH YW ADDYSG FFILM?

Diffiniad Ffilm Cymru Wales o addysg ffilm yw gweithgareddau (theoretig neu ymarferol) sy'n annog pobl i allu cael mynediad at ffilmiau, a gallu mwynhau, deall, creu, archwilio a rhannu ffilmiau drwy gydol eu bywydau. Yn ôl ein diffiniad ni, mae addysg ffilm yn cynnwys y meysydd dysgu canlynol:

- Ymarfer Creadigol – Archwilio creu ffilmiau fel ymarfer creadigol, gan ddangos y broses o'r sgrïpt i'r sgrin gan alluogi pobl i ddefnyddio ffilmiau ar gyfer eu creadigrwydd eu hunain.
- Dealltwriaeth Feirniadol – Creu cyfleoedd i wylïo, dadelfennu a thrafod ffilmiau, a dadlau yn eu cylch, a'r materion sy'n codi drwyddynt, er mwyn datblygu iaith a llythrennedd ffilmiau.
- Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol – Datblygu cynulleidfaoedd i ffilmiau annibynnol i'r dyfodol ac annog y cyfranogiad ehangaf posibl yn niwylliant ffilmiau Cymru.

Ers 2006, mae Ffilm Cymru wedi cefnogi addysg ffilm yng Nghymru drwy gyllid prosiectau galwad agored a thrwy gydweithio â sefydliadau cenedlaethol eraill gan gynnwys Into Film Cymru. Rydym yn rhannu egwyddorion sylfaenol Addysg Ffilm fel sydd wedi'u cyflwyno yn "Fframwaith ar gyfer Addysg Ffilm" y BFI a luniwyd ar y cyd â sefydliadau ledled y Deyrnas Unedig. Dyma'r egwyddorion hyn:

- The Pwysigrwydd prosiectau addysg ffilm cynhwysol a hygyrch, sy'n archwilio theori a phroses greadigol ffilmiau.
- Cydnabyddiaeth o elfennau nodedig ffilm – fel ffurf gelfyddydol a thestun, gyda'i hiaith, ei hanes a'i hestheteg ei hun.
- Hawl pob plentyn a pherson ifanc i fynegi'i hun ynghyd â phrofi ffilmiau, dysgu amdanynt a'u gwerthfawrogi, yn strwythurau ffurfiol yr ysgol ac yn amgylchedd anffurfiol y cartref a'u cymuned.

Darllenwch fwy am y ['Fframwaith ar gyfer Addysg Ffilm' fan hyn](#).

FFRAMWAITH ADDYSG FFILM AR GYFER EWROP						
Nod	Ysbrydoli pobl ledled Ewrop a rhoi iddynt y gallu i gael mynediad at ffilmiau, a mwynhau, deall, creu, archwilio a rhannu ffilmiau yn eu holl ffurfiau drwy gydol eu bywydau.					
SYNWYRUSRWYDD FFILM						
Dimensiynau allweddol addysg ffilm	Creadigol Prosesau, Arferion, Cyfranogi		Beirniadol Prosesau, Arferion, Cyfranogi		Diwylliannol Prosesau, Arferion, Cyfranogi	
Meysydd dysgu	Penodoldebau ffilm	Prosesau cymdeithasol, personol ac ar y cvd	Ymateb personol beirniadol	Ymgysylltu'n ehangach â ffilmiau	Cyd-destun hanesyddol a sefydliadol	Dysgu myfyriol
Canlyniadau dysgu	Meddylwyr beirniadol	Crewyr anturus	Unigolion mynegiannol	Cyfranwyr sensitif	Ymarferwyr myfyriol	Cydweithwyr gweithgar
	Archwilwyr hyderus	Cyfranogwyr cytbwys	Cynulleidfaoedd deallus	Eiriolwyr brwdfrydig	Dysgwyr annibynnol	Dinasyddion ymgysylltiedig
Profiadau	Ymgysylltu â ffilmiau yn eu holl	Profi ffilmiau yn y sinema	Darganfod ffilmiau o'r gorffennol	Profi celfyddyd ffilmiau	Nodi, cwestiynu a myfyrio ar syniadau	Myfyrio ar ddiwylliannau
Profi cyfleoedd creadigol ym maes creu ffilmiau						
Awydd am ddsygu gydol oes	Chwilfrydedd	Empathi	Dyhead	Goddefgarwch	Mwynhad	
Cysylltu â bywyd a gwaith	Datblygiad personol		Cyfrifoldeb dinesig		Cyflogadwyedd	

CRONFA I BWY YW HON?

Ymarferwyr Addysg Ffilm annibynnol sy'n seiliedig yng Nghymru ac yn gweithio ar hybu cyrhaeddiad addysg ffilm yng Nghymru.

Mae Ffilm Cymru yn diffinio 'ymarferydd addysg ffilm' fel unigolyn annibynnol (nad yw wedi'i gyflogi fel athro mewn ysgol, na sefydliad AU nac AB) sydd â phrofiad llwyddiannus o gyflawni prosiectau ddysg ffilm o ansawdd.

Mae croeso i'r sefydliadau neu'r unigolion hynny sydd â phrofiad cyfyngedig ym maes addysg ffilm lenwi Mynegiad o Ddiddordeb. Gall Ffilm Cymru gynnig cyngor ar hyfforddiant a/neu mentoriaeth a allai gryfhau'r cais, lle y bo'n berthnasol.

Yn wahanol i gynllun Dysgu Creadigol Cyngor Celfyddydau Cymru, nid oes modd i ni dderbyn ceisiadau oddi wrth ysgolion na sefydliad addysg, ond croesawn ymholiadau er mwyn i ni allu argymhell ymarferwyr addysg ffilm posibl a allai gydweithio ar gais.

CRONFA I BETH YW HON?

Mae galwad agored Cronfa Arloesi Addysg Ffilm yn gwahodd cynigion i archwilio ffyrdd newydd i weithio a/neu brofi mathau gwahanol o gyflawni a fydd yn goresgyn rhwystrau i addysg ffilm yn ystod pandemig COVID-19.

Cronfa gymharol fach yw hon, a luniwyd i helpu sefydliadau i fanteisio ar gyfleoedd a phrofi syniadau.

Gallai ceisiadau gynnwys gweithgareddau fel, ond heb fod yn gyfyngedig i, dysgu o bell drwy ddarpariaeth ar-lein, datblygu adnoddau a/neu hyfforddiant DPP.

Mae'n bosibl y gallai elfennau arloesi sy'n cael eu hariannu drwy'r gronfa hon arwain at gais yn y dyfodol i Gronfa Prosiectau Addysg Ffilm, a bydd y dyddiad cau ar gyfer hynny yn nhymer yr hydref, 2020

COSTAU CYMWYS

GALLWN ARIANNU:

- Film Ffi ymarferydd Addysg Ffilm
- Deunyddiau ac adnoddau
- Teithio a threuliau
- Tanysgrifio i feddalwedd a gwasanaethau ar-lein
- Ffioedd siaradwyr gwadd ac arbenigwyr yn y diwydiant
- Ffioedd ymgynghori (gan gynnwys cyfreithiol, busnes, technegol ac ariannol)
- Costau swyddfa a gorbenion yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni'r cynnig addysg ffilm
- Llogi offer
- Hyfforddiant a mentoriaeth
- Gweithgarwch monitro a gwerthuso
- Ffioedd ysgrifennu er mwyn creu adnoddau newydd
- Costau'n gysylltiedig â chynyddu mynediad i gyfranogwyr (e.e. bwrsariaethau, teithio a lluniaeth)
- Addysg ffilm gyfranogol yn digwydd mewn ysgolion, lleoliadau cymunedol ac ar-lein (noder: rhaid i'r ceisiadau ddod oddi wrth Ymarferwyr Addysg Ffilm gan nad oes modd i ni ariannu ysgolion yn uniongyrchol)

NI ALLWN ARIANNU:

- Gweithgarwch sy'n digwydd y tu allan i Gymru
- Gweithgarwch sydd eisoes wedi digwydd neu nwyddau a gwasanaethau y talwyd amdanynt eisoes adeg gwneud y cais
- Ysgolion a sefydliadau addysgol yn uniongyrchol
- Gweithgarwch nad yw'n ymwneud â ffilm na'r ddelwedd symudol
- Cymorth gwariant cyfalaf i brosiectau
- Gweithgarwch masnachol, gan gynnwys prosiectau sy'n galw am 'ffi' gan gyfranogwyr er mwyn gwneud elw
- Cost llogi cyfarpar pan fo'r cyfarpar eisoes yn eiddo i'r sefydliad neu'r ymarferydd

FAINT O ARIAN SYDD AR GAEL?

Yn ystod 2020-21 bydd cyfanswm o £10,000 ar gael drwy Gronfa Arloesi Addysg Ffilm.

Mae pob cais yn gyfyngedig i ofyn am uchafswm o £2,500 fel grant nad yw i'w dalu'n ôl, a chaiff yr arian ei gapio ar 75% o gyfanswm y gyllideb ar gyfer y prosiect. Dylai'r gweddill gynnwys ffynonellau ychwanegol o gyllid, incwm y prosiect, a gall hefyd gynnwys cymorth mewn nwyddau.

SUT MAE GWNEUD CAIS?

Bydd Ffilm Cymru yn gwahodd ceisiadau ar sail dreigl hyd at fis Medi 2020.

1. MYNEGIAID O DDIDDORDEB

Rhaid i bob ymgeisydd gysylltu â Tîm Ffilm Cymru i gydlynu 'Mynegiad o Ddiddordeb' drwy gyfarfod ar-lein neu alwad ffôn cyn cyflwyno cais. Mae'r sgwrs hon yn gyfle i edrych ar eich prosiect yn y camau cynnar a dechrau meddwl sut mae'r cynnig yn cyflawni amcanion y gronfa.

Gall Mynegiad o Ddiddordeb gael eu cyflwyno unrhyw adeg, ond nid hwyrach na 15fed Medi 2020.

I wneud cais am gyfarfod / galwad ffôn, anfonwch e-bost i'r manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

2. Y CAIS

IOs cewch eich gwahodd i wneud cais, yn dilyn y sgwrs Mynegiad o Ddiddordeb, byddwn yn afon ffurflen gais atoch.

- Bydd y cais a gyflwynwch yn yn cynnwys:
- Y Ffurflen Gais wedi'i chwblhau, yn cwmpasu'r meysydd canlynol
- Manylion y sefydliad
- Amcanion y prosiect, gyda chynllun cyflawni ymarferol
- Gwerthusiad, sut beth fydd llwyddiant?
- Cyllideb y Prosiect (incwm a gwariant arfaethedig)
- CV a rhifau tystysgrif DBS yr unigolion a fydd yn cyflawni'r addysg ffilm
- Cofrestr Risg
- Polisiâu yn cynnwys Polisiâu Cynaliadwyedd, Diogelu Plant, Pobl ifanc ac Oedolion Agored i Niwed, a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Gall Ffilm Cymru Wales gynnig cefnogaeth drwy'r cais a chynnig arweiniad ynglŷn â'n hegwyddorion ariannu. I gael cymorth, cysylltwch â thîm Ffilm Cymru drwy'r manylion cyswllt isod.

BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

CYFLWYNO CEISIADAU

Rhaid i bob cais gael ei gyflwyno i education@ffilmcymruwales.com – nid oes modd i ni dderbyn unrhyw gais sy'n cael ei anfon i gyfeiriad e-bost arall na thrwy'r post.

Bydd e-bost o gadarnhad yn cael ei anfon, a fydd yn cynnwys cyfeirnod a dolen i'n ffurflen ddiennw ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Bydd angen i'r prif ymgeisydd lenwi'r ffurflen hon er mwyn cwblhau eich cais. Cewch ddarllen mwy am [Gynllun Gweithredu Ffilm Cymru ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fan hyn](#).

SUT BYDDWN YN ASESU EICH CAIS?

Bydd pob cais am gyllid yn cael ei ystyried gan banel a fydd yn cynnwys Prif Weithredwr Ffilm Cymru Wales, y Rheolwr Cynulleidfa ac Addysg a Chydlynnydd Cynulleidfa ac Addysg.

Bydd y penderfyniadau ar ariannu, a pha swm, yn cael ei wneud drwy asesu yn erbyn yr amcanion uchod (fel sydd wedi'i ddiffinio gan adran 'Cronfa i beth yw hon?' y canllawiau) yn ogystal â hyfywedd cyffredinol y cynnig a'i botensial i wella mynediad i addysg ffilm.

Fe'ch hysbysir y gall y broses hon gymryd hyd at 6 wythnos o'r dyddiad cau, ond byddwn yn ymdrechu i wneud penderfyniadau cyn gynted ag y gallwn.

Y CAMAU NESAF

Caiff yr ymgeiswyr llwyddiannus eu hysbysu drwy e-bost neu alwad ffôn. Yn dilyn hyn, caiff llythyr cynnig ei anfon a fydd yn cadarnhau'r symiau ac unrhyw wybodaeth neu amodau sy'n ofynnol ar gyfer y dyfarniad.

Unwaith y bydd yr amodau wedi'u bodloni, bydd Ffilm Cymru Wales yn cyflwyno cytundeb ariannu, yn adlewyrchu nodau ac amcanion y cais yn ogystal â manylion y gofynion a'r amserlen ar gyfer y prosiect, gan gynnwys casglu data, gwerthuso a thelerau talu.

Yn anffodus, ni all Ffilm Cymru Wales ariannu pob cais a gaiff ei gyflwyno, ond byddwn yn anelu i gynnig arweiniad ac adborth ar bob cais.

CWYNION, ADBORTH AC APELIADAU

Os hoffech ddarparu unrhyw adborth, gwneud cwyn neu apelio'n erbyn y penderfyniad, mae ein gweithdrefn i'w gweld [fan hyn](#). Noder: Mae hon yn rhaglen sy'n cael ei hariannu gan y loteri.

ADRODD

Mae gofyn i bob cynnig llwyddiannus gyflwyno adroddiad hunan-asesu terfynol o fewn dau fis i gwblhau'r gweithgaredd sydd wedi'i ariannu. Bydd yr adroddiad terfynol hwn yn cynnwys:

- Y Gwerthusiad Naratif (yn archwilio'r cyflawniadau, yr heriau a'r gwersi a ddysgwyd)
- Gwir Incwm a Gwariant
- Data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Cyfranogwyr (os yw'n berthnasol)
- Data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yr ymarferwyr cyflawni a phersonél cysylltiedig
- Ffurflen Astudiaeth Achos (gan gynnwys delweddau a deunydd cyhoeddusrwydd)

Bydd y Tîm Cynulleidfa ac Addysg hefyd yn cysylltu yn y cyfnod cyn cynnal y gweithgarw, ac yn ystod y gweithgaredd, i gynnig cymorth a chyingor ac i ymweld (yn rhithiol) â phob sefydliad (os yw'n berthnasol).

DIOGELU DATA

Bydd yr holl ddata a gaiff ei gasglu fel rhan o gamau'r Mynegiad o Ddiddordeb, y broses ymgeisio a thrwy gydol y prosiectau llwyddiannus hefyd yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Diogelu Data a Phreifatrwydd Ffilm Cymru Wales. Mae mwy o wybodaeth, ynghyd â'r polisi llawn, i'w gweld [fan hyn](#).

MANYLION CYSWLLT

Mae'r Gronfa Arloesi Addysg Ffilm yn cael ei rheoli gan adran Cynulleidfa ac Addysg Ffilm Cymru.

NICOLA MUNDAY

Rheolwr Cynulleidfa ac Addysg

nicola@ffilmcymruwales.com

NATASHA WILSON

Cydlynnydd Cynulleidfa ac Addysg

natasha@ffilmcymruwales.com

CWESTIYNAU CYFFREDIN

RWY'N ATHRO SYDD Â DIDDORDEB MEWN ADDYSG FFILM, A OES MODD I MI YMGEISIO?

Yn anffodus, nid oes modd i ni ariannu ysgolion yn uniongyrchol, ond gallwn ariannu ymarferwyr addysg ffilm i weithio gydag ysgolion.

Rydym yn croesawu ymholiadau a bydd modd i ni drafod ymarferwyr addysg ffilm posibl y gallai fod modd iddynt gydweithio â chi ar gais. Gallech hefyd gysylltu ag ymarferwyr drwy rwydweithiau'r [Celfyddydau ac Addysg](#).

Mae Into Film Cymru yn darparu adnoddau i athrawon sy'n gweithio gyda ffilmiau yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r adnoddau hyn i'w gweld [fan hyn](#).

BETH ALL GAEL EI DDEFNYDDIO FEL ARIAN CYFATEBOL?

Gall arian cyfatebol gynnwys arian partneriaeth o ffynonellau ychwanegol a gwerthusiad o gymorth mewn nwyddau. Gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gymorth gwirfoddolwyr (lle y bo'n briodol), llogi lleoliad ac amser staff.

BLE ARALL GALLAF DDOD O HYD I GYMORTH YM MAES FFILM YNG NGHYMRU?

Mae nifer o sefydliadau sy'n gweithio yng Nghymru i gefnogi byd ffilm:

- Canolfan Ffilm Cymru – rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI, sy'n cefnogi'r sector arddangos yng Nghymru.
- Into Film Cymru
- BAFTA
- Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae Ffilm Cymru Wales hefyd yn gartref i Rwydwaith BFI Cymru, sy'n cynnig nifer o gynlluniau i hybu gyrfaoedd gwneuthurwyr ffilmiau. Rydym yn argymhell eich bod yn cysylltu â'r tîm i drafod cyfleoedd yn ymwneud â rhwydweithio a digwyddiadau i wneuthurwyr ffilmiau.

A OES ANGEN I FY SEFYDLIAD FOD YN SEILIEDIG YNG NGHYMRU ER MWYN GWNEUD CAIS?

Oes, ar gyfer y gronfa hon. Serch hynny, mae Cronfa Prosiectau Addysg Ffilm Ffilm Cymru ar agor i sefydliadau nad ydynt yn seiliedig yng Nghymru, cyhyd â bod yr holl weithgarwch sy'n cael ei gefnogi yn cael ei gynnal yng Nghymru.

RYDW I EISIAU CYNNAL RHAGLEN O HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL YM MAES FFILM A/NEU'R CYFRYNGAU? ALLWCH CHI FY ARIANNU I?

Nid oes modd i ni gynorthwyo hyfforddiant galwedigaethol drwy'r gronfa hon, ond mae croeso i chi drafod eich syniadau gyda'n Rheolwr Gweithredol Sgiliau a Hyfforddiant (Lloyd Elis - Lloyd@ffilmcymruwales.com). Rydym yn diffinio hyfforddiant 'galwedigaethol' yn y cyd-destun hwn i olygu unrhyw weithgarwch addysgol sy'n paratoi pobl i weithio yn y diwydiant ffilm/teledu.

ffilm

CYMRU WALES

WWW.FFILMCYMRUWALES.COM

TRAMSHED TECH
UNED 6
STRYD PENDYRIS
CAERDYDD
CF11 6BH



**ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**

